Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Gylch Arch yr Enfys**
**Ysgol Gynradd Rhaeadr**
**Bryntirion Lane**
**Rhaeadr**
**Powys**
**LD6 5LT**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/02/2017**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Arch yr Enfys yn Rhaeadr, yn awdurdod lleol Powys. Mae'r lleoliad ar agor am bum bore'r wythnos ac yn cyflogi dau ymarferwr.

Mae cofrestriad y lleoliad yn galluogi iddo dderbyn hyd at 15 o blant ar unrhyw adeg benodol. Mae'r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a phedair oed. Adeg yr arolygiad, roedd yr awdurdod lleol yn ariannu saith o blant. Ychydig o blant yn unig sy'n mynychu'r lleoliad am hyd at bedwar bore'r wythnos. Mae'r plant eraill yn mynychu ar gyfer naill ai un neu ddwy sesiwn yr wythnos.

Mae bron pob un o'r plant yn siarad Saesneg fel eu mamiaith. Mae'r lleoliad yn datgan nad oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol ar hyn o bryd.

Mae pwyllgor rheoli yn rheoli'r lleoliad ac mae'n elusen gofrestredig. Dechreuodd yr arweinydd ar ei swydd ym Medi 2016. Mae'n rhannu'r rôl arwain gyda'r arweinydd chwarae cynorthwyol, sy'n astudio ar gyfer cymwysterau arwain ar hyn o bryd.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yn Ionawr 2016, ac arolygwyd y lleoliad gan Estyn yn Hydref 2009.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- Mae mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau llythrennedd a rhifedd
- Mewn cyfnod byr, mae mwyafrif y plant yn dangos dealltwriaeth sylfaenol gadarn o'r Gymraeg
- Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda
- Mae llawer o blant yn ddysgwyr brwd sy'n dangos diddordeb
- Mae mwyafrif y plant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol
- Mae llawer o blant yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais
- Mae'r gofal, y cymorth a'r arweiniad gan ymarferwyr yn meithrin plant yn effeithiol

Fodd bynnag:

- Nid yw lleiafrif o blant yn gwrando'n ddigon da ac nid ydynt yn ymgymryd â thasgau ar unwaith
- Ychydig o blant yn unig sy'n dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau mewn ffurfiau y gellir eu hadnabod yn eithaf da
- Mae prosesau cynllunio yn newydd ac nid ydynt wedi cael amser i ymgorffori yn arferion dyddiol y lleoliad
- Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn foddhaol
- Nid yw arferion addysgu ac asesu ymarferwyr bob amser yn herio pob un o'r plant i berfformio ar eu gorau
- Nid yw'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau awyr agored yn ddigon da

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- Mae amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n briodol ar sicrhau darpariaeth effeithiol i fodloni anghenion y rhan fwyaf o'r plant
- Mae'r broses arfarnu yn ystyried safbwyntiau pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad yn ofalus
- Caiff ymarferwyr hyfforddiant effeithiol
- Ceir partneriaethau cadarnhaol â'r ysgol, ac mae hyn yn cefnogi'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn llwyddiannus

- Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid yn effeithiol i sicrhau gwelliannau yn ansawdd y ddarpariaeth dan do
- Mae'r pwyllgor rheoli yn mynd i'r afael â chynlluniau arweinyddiaeth tymor hir y lleoliad yn bwrpasol

Fodd bynnag:

- Nid yw arferion arweinyddiaeth wedi cael digon o amser i effeithio ar ddarpariaeth y lleoliad a deilliannau plant yn effeithiol
- Nid yw arferion goruchwylio a gwerthuso rheolaidd wedi'u sefydlu'n llawn
- Nid yw prosesau hunanarfarnu a sefydlwyd yn ddiweddar wedi cael digon o amser i ymgorffori ym mywyd y lleoliad o ddydd i ddydd neu effeithio'n llawn arno
- Nid yw targedau yn y cynllun gwella bob amser yn deillio'n uniongyrchol o hunanarfarniad y lleoliad

## Argymhellion

A1 Gwella medrau gwrando plant

A2 Ymgorffori'r systemau cynllunio ac asesu newydd yn llwyddiannus

A3 Sicrhau bod ymarferwyr yn herio plant yn unol â'u galluoedd

A4 Gwneud defnydd gwell a chyson o'r ardaloedd yn yr awyr agored i gyfoethogi profiadau'r plant

A5 Sefydlu arferion arwain cadarn yn y lleoliad

A6 Ymgorffori prosesau hunanarfarnu effeithiol a sicrhau bod targedau yn y cynllun datblygu yn deillio o'r adroddiad hunanarfarnu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae mwyafrif y plant yn dangos cynnydd effeithiol wrth ddatblygu eu medrau ar draws yr holl feysydd dysgu, gan gynnwys eu medrau llythrennedd a rhifedd. Maent yn siarad yn synhwyrol am y modd y maent yn datblygu eu medrau, er enghraifft pan fyddant yn creu paentiad o goeden Nadolig ynghyd â phrintiau llaw a phan fyddant yn gwneud eu papur lapio Nadolig eu hunain gyda stampiau tatws a blociau argraffu.

Mae medrau Cymraeg bron pob un o'r plant yn wael pan fyddant yn dechrau yn y lleoliad. Mae eu dealltwriaeth a'u defnydd cynnar o'r iaith yn datblygu'n briodol. Mewn cyfnod byr, mae mwyafrif y plant yn dangos dealltwriaeth sylfaenol gadarn o'r iaith. Er enghraifft, defnyddiant eiriau ac ymadroddion syml o bryd i'w gilydd tra byddant yn chwarae rôl yn ogof Siôn Corn ac wrth bwyso cynhwysion a pharatoi toes i wneud mins peis.

Mae mwyafrif y plant yn deall beth i'w wneud pan gânt gyfarwyddyd yn Gymraeg. Mae hyn yn amlwg pan fyddant yn gwrando'n eithaf da ar storïau a phan fyddant yn dringo offer anturus yn yr awyr agored o dan gyfarwyddyd ymarferwyr y lleoliad.

Mae tua hanner y plant yn ceisio siarad yn glir ac yn gwneud yn siŵr bod pobl eraill yn eu deall wrth iddynt ymateb i gwestiynau ymarferwyr yn Gymraeg yn ystod tasgau. Mae'r plant hyn yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn gweithredu yn unol â nhw yn brydlon, gan ddangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r iaith. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o blant yn gwrando'n ddigon da ac nid ydynt yn cymryd rhan mewn tasgau ar unwaith.

Mae tua hanner y plant yn ymateb yn dda yn Gymraeg yn ystod gweithgareddau unigol, er enghraifft wrth beintio cynrychiolaeth bywyd llonydd o goeden Nadolig yn eu harddull eu hunain. Mae hyn yn digwydd yn ystod chwarae anffurfiol a gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion, er enghraifft wrth greu helfeydd trysor yn yr ardal ar lechi electronig yn yr awyr agored, trefnu anifeiliaid fferm yn yr hambwrdd tywod a chwblhau jig-sos.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn trin a thrafod y llyfrau yn yr ardal ddarllen yn briodol, ac mae mwyafrif y plant yn dangos diddordeb yn y llyfrau hyn. Maent yn deall diben y darluniau ac yn adnabod gwahanol gymeriadau yn effeithiol.

Mae llawer o blant yn arbrofi â chreu marciau yn effeithiol ac maent yn mwynhau profiadau ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau. Mae enghreifftiau'n cynnwys peintio â brwshys paent a marcio byrddau sialc ac iard y lleoliad â sialciau. Mae rhai plant yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau mewn ffurfiau y gellir eu hadnabod yn eithaf da wrth drin a thrafod pensiliau a chreonau. Mae mwyafrif y plant yn esbonio diben ysgrifennu yn y cyd-destun cywir. Mae lleiafrif o blant yn adnabod eu henwau eu hunain ac enwau plant eraill yn ystod cyfnod cofrestru a chyfnod byrbryd.

Mae mwyafrif y plant yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol ac mewn cyd-destunau bob dydd. Maent yn adnabod, yn enwi ac yn cyfrif rhifau i bump gyda chymorth gan oedolyn ac mae rhai ohonynt yn cyfrif i ddeg a thu hwnt yn gywir, wrth ddidoli siapiau a gwahanol fathau o wrthrychau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall y gwahaniaethau mewn maint wrth osod gwahanol gymeriadau mewn castell tegan ac o'i amgylch, ac yn ystod sesiynau chwarae rhydd gyda hofrenyddion a cheir. Maent yn esbonio'n gywir a yw gwrthrychau'n 'rhy fawr' neu'n 'rhy fach' a phan fyddant yn dringo o safle 'isel' i 'uchel' ar y wal ddringo i gyrraedd y llithren.

Mae mwyafrif y plant yn defnyddio ystod dda o iaith fathemategol wrth gydweithredu â'i gilydd mewn chwarae digymell, er enghraifft wrth gymharu hyd, uchder neu bwysau gwahanol wrthrychau. Maent hefyd yn defnyddio rhifau'n dda mewn gweithgareddau ymarferol wrth gymharu siapiau dau a thri dimensiwn fel 'fflat' neu 'crwn', ac wrth gyfrif yn eu trefn nifer y drysau sydd wedi'u rhifo o amgylch yr ystafell.

Mae llawer o blant yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth ac mae'r mwyafrif ohonynt yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn Gymraeg. Maent yn deall bod angen iddynt ganu rhai ymadroddion cerddorol â lleisiau uwch neu fwy meddal.

Mae mwyafrif y plant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau ymarferol yn effeithiol. Er enghraifft, defnyddiant siswrn a phapur lapio i orchuddio blychau cardfwrdd o wahanol faint ac maent yn tynnu llun arwyddion ffyrdd o wahanol faint o amgylch y dref. Mae tua hanner y plant yn datblygu medrau meddwl effeithiol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau a gyflawnir ganddynt, er enghraifft pan fyddant yn pwyso botymau yn annibynnol i groesi'r ffordd wrth groesfannau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio technoleg yn effeithiol wrth ddefnyddio camerâu, teganau electronig a chyfrifiaduron llechen mewn gweithgareddau bob dydd. Defnyddiant feddalwedd addysgol yn effeithiol i ddatblygu eu medrau TGCh a'u medrau echddygol manwl.

**Lles: Da**

Mae llawer o blant yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais. Mae mwyafrif y plant yn gwrando'n ofalus ar oedolion, er enghraifft pan fyddant yn gwisgo'n addas ar gyfer gweithgareddau anturus yn yr awyr agored yn ardal awyr agored yr ysgol. Wedi iddynt ddefnyddio'r toiled, a chymryd rhan mewn gweithgareddau peintio a gweithgareddau yn yr awyr agored, mae llawer o blant yn golchi eu dwylo'n drylwyr, heb ormod o anogaeth gan oedolion.

Mae llawer o blant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu ac mae'r mwyafrif ohonynt yn dangos lefelau cadarnhaol o ymgysylltiad yn ystod tasgau. Mae llawer o blant yn mwynhau'r gweithgareddau yn yr ardaloedd dysgu ac maent yn rhannu offer a gwaith yn synhwyrol gyda phlant eraill.

Mae llawer o blant yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd, er enghraifft wrth greu llwybr trysor gyda chliwiau ar gyfrifiadur llechen. Fodd bynnag, mae ymddygiad ac ymgysylltiad rhai o'r plant iau yn y lleoliad yn effeithio ar allu plant hŷn i ganolbwyntio yn ystod tasgau.

Mae llawer o blant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad a phan fyddant yn gadael. Mae mwyafrif y plant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Mae hyn yn amlwg pan fydd y plant hyn yn esbonio'n synhwyrol pa weithgareddau yw'r rhai y maent yn eu ffafrio, a pham y gwnaethant eu dewis cyn tasgau eraill.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau deall bod ganddynt hawliau fel unigolion a bod ganddynt ddewis i fynegi barn a ffafriaethau personol, er enghraifft wrth benderfynu parhau â thasgau penodol, neu roi'r gorau i'w gwneud.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn dechrau cynllunio gyda'i gilydd yn briodol i ddarparu cwricwlwm addas, sy'n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn foddhaol. Mae'r cynllunio yn targedu diddordebau'r plant a'u hanghenion yn fuddiol ac mae'n rhoi digon o gyfleoedd iddynt ddysgu'n annibynnol.

Mae'r prosesau cynllunio newydd yn darparu gweithgareddau hyblyg a diddorol, sy'n cymell plant i ddysgu trwy dasgau ymarferol. Mae ymarferwyr yn galluogi plant i gyfrannu eu syniadau eu hunain ac maent yn sicrhau cydbwysedd yn gymwys rhwng gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolyn a gweithgareddau wedi'u harwain gan blant. Mae profiadau dysgu'n fwy difyr erbyn hyn ac mae ymarferwyr yn sicrhau dilyniant cadarn yn nysgu'r plant. Fodd bynnag, mae'r prosesau cynllunio yn newydd ac nid ydynt wedi cael amser i ymgorffori yn arferion dyddiol y lleoliad ac effeithio ar ddeilliannau'r plant. Mae'r lleoliad yn gwella a mireinio'r prosesau o hyd.

Ceir cyfleoedd perthnasol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl plant. Mae tasgau llythrennedd a rhifedd bellach yn fwy amlwg yn yr ardaloedd dysgu ac maent yn herio mwyafrif y plant i berfformio ar eu gorau ar y cyfan. Mae'r tasgau'n adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol plant mewn modd bywiog. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyfleoedd gwerth chweil ar gyfer chwarae rôl yn ogof Siôn Corn a chreu rocedi yn annibynnol o wahanol siapiau.

Mae'r arferion cynllunio newydd yn sicrhau heriau rheolaidd i gefnogi datblygiad medrau datrys problemau plant. Mae enghreifftiau'n cynnwys trefnu eu hunain mewn llinell i lithro oddi ar yr offer dringo a dewis y blociau argraffu a'r siapiau tatws mwyaf priodol i greu patrymau effeithiol ar bapur lapio.

Mae ymarferwyr yn cynllunio i ddatblygu medrau corfforol plant yn llwyddiannus. Maent yn galluogi plant i archwilio ac arbrofi ar offer dringo a rhedeg o gwmpas yn egnïol yn ystod helfeydd eirth. Mae hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth plant o berygl a sut i ddefnyddio offer yn synhwyrol i gynorthwyo plant a phobl eraill.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn foddhaol. Mae ymarferwyr yn modelu'r iaith yn gywir. Maent yn annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg trwy ganu caneuon a defnyddio ymadroddion syml sy'n cynnwys rhifau, lliwiau a chyfarwyddiadau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn effeithio ar ddefnydd bob dydd y plant o'r iaith yn ddigonol. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o

draddodiadau a dathliadau Cymreig yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen, a phobi cacennau, bara a chawl traddodiadol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh plant yn llwyddiannus. Mae'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddefnyddio cyfrifiadur llechen, camerâu, teganau electronig a gwrthrychau'r cartref. Mae ymarferwyr yn herio plant i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar yn systematig trwy gynnig cyfleoedd TGCh sy'n cefnogi datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Mae ymweliadau â siopau'r dref a theithiau cerdded natur yn ychwanegu diddordeb at y cwricwlwm. Mae ymwelwyr, sy'n cynnwys swyddogion yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a gweithwyr archfarchnad, yn addysgu'r plant yn briodol am rolau pobl yn eu cymuned.

Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu diddorol sy'n annog plant i drin pobl o bob cefndir diwylliannol â pharch a goddefgarwch. Mae hyn yn cynnwys dathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd ac Eid. Mae'r profiadau hyn, sy'n cael eu cynllunio, yn datblygu dealltwriaeth well o'r byd ar gyfer plant.

**Addysgu: Digonol**

Mae ymarferwyr yn cyfarch y plant yn gynnes wrth iddynt gyrraedd ar gyfer pob sesiwn ac maent yn rheoli ymddygiad plant yn ddiogel. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant mewn llawer o'r gweithgareddau.

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plant. Maent yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen ac yn cydweithredu'n briodol. Mae ymarferwyr yn dangos cydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau dan gyfarwyddyd y plant a gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion. Maent yn darparu ystod ddigonol o gyfleoedd i blant i'w galluogi i ddysgu trwy chwarae a phrofiadau ymarferol.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau addas ar gyfer y rhan fwyaf o blant ac maent yn herio plant yn gymwys mewn rhai tasgau ffocws. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn herio plant yn ddigon da yn unol â'u galluoedd. Maent yn ymyrryd yn synhwyrol yn chwarae'r plant, gan annog llawer o blant i berfformio ar eu gorau yn ystod gweithgareddau parhaus a manylach. Mae ymarferwyr yn holi llawer o blant yn gadarn er mwyn datblygu medrau meddwl a chyfathrebu. Mae hyn yn amlwg wrth drafod faint o gynhwysion sydd eu hangen i wneud mins peis.

Mae ymarferwyr yn cwblhau asesiadau'n briodol. Ar adegau, maent yn annog y plant i asesu eu dysgu eu hunain yn dda. Maent yn trafod o bryd i'w gilydd gyda rhai plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mae ymarferwyr yn cofnodi arfarniadau a thrafodaethau ar daflenni cofnodi ac yn anodi gwaith plant yn eu llyfrau cofnod. Fodd bynnag, nid yw hyn yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio tasgau ar gyfer y dyfodol ac nid yw'n targedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn ddigon cywir.

Erbyn hyn, mae ymarferwyr yn dangos tystiolaeth o waith y plant yn ôl deilliannau yn effeithlon, wrth iddynt aeddfedu yn y lleoliad, gan ddefnyddio proffil y Cyfnod Sylfaen. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd ac yn effeithiol am gyflawniadau eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant.  Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio trafodaethau grŵp i ystyried teimladau ei gilydd yn ystod gweithgareddau amser cylch ac amser byrbryd.  Mae hyn yn meithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch at ei gilydd yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr bob dydd i blant fyfyrio, trafod teimladau a dweud diolch.  O ganlyniad, mae'r plant yn cymryd eu tro'n briodol wrth iddynt fwyta byrbrydau ac yn gweini llaeth a dŵr yn ofalus o gwmpas y byrddau bwyd.  Mae helpwr y dydd yn caniatáu i blant gynorthwyo'n effeithiol â pharatoi'r bwrdd byrbrydau.

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant ac mae'r lleoliad yn gweithredu gweithdrefnau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.  O ganlyniad, mae'r plant yn dechrau deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu at ffordd synhwyrol o fyw.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cardfwrdd, cynwysyddion plastig a bwyd.  Mae creu modelau o sothach hefyd yn rhan weithredol o gynllunio'r lleoliad.  Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn gymwys.  Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da o'r plant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu.  Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu'r plant yn gywir pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu cyfnod yno.  Mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd ac maent yn nodi eu mannau cychwyn yn briodol trwy ddilyn canllawiau proffil y Cyfnod Sylfaen.  Felly, mae'r lleoliad yn targedu plant â chymorth ychwanegol yn effeithiol, pan fydd ei angen.  Mae ymarferwyr yn trafod y plant hyn gyda'r asiantaethau priodol er mwyn darparu cymorth cyn gynted ag y bo modd i dargedu eu hanghenion.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn yr un cyfle i elwa ar yr holl feysydd dysgu ac adnoddau.  Mae ymarferwyr yn adnabod ac yn deall y plant yn dda ac maent yn cynorthwyo'r plant mewn modd gofalus a sensitif.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos gofalgar trwy ei weithgareddau dyddiol a'r dull a fabwysiadwyd gan yr ymarferwyr.  Mae pawb yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth.  Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn effeithiol trwy ddathlu

gwahanol wyliau o bob cwr o'r byd bob blwyddyn, fel y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd ac Eid. Mae hefyd yn defnyddio doliau o gefndiroedd diwylliannol gwahanol yn bwrpasol i hyrwyddo'r hyn sy'n debyg rhwng pobl a'r gwahaniaethau rhyngddynt.

Yn gyffredinol, mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau dan do yn dda, i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio ystod eang o adnoddau diddorol yn effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, y tasgau ffocws a'r cyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu.

Mae offer ac adnoddau'r lleoliad yn hygyrch i bob un o'r plant, ac mae hyn yn hyrwyddo synnwyr y plant o gyfrifoldeb yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau yn yr awyr agored yn ddigon da i ddatblygu medrau plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn defnyddio cyfleusterau yn yr ardal leol yn synhwyrol, fel defnyddio amwynderau'r dref i gefnogi dysgu'r plant.

Mae ansawdd yr adeilad yn briodol; mae'n lân, yn cael ei gynnal yn dda ac yn ddiogel.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae arweinydd presennol y lleoliad mewn swydd dros dro nes bydd yr ymarferwr cynorthwyol yn ennill y cymwysterau angenrheidiol i gymryd yr awenau fel arweinydd. Mae amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n briodol ar sicrhau darpariaeth effeithiol i fodloni anghenion y rhan fwyaf o'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r arferion arwain wedi cael digon o amser i gael effaith ar ddarpariaeth y lleoliad a deilliannau'r plant yn effeithiol.

Mae'r pwyllgor rheoli'n canolbwyntio ar ddatblygu ymarferwyr yn dda ac yn eu cymell tuag at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol. Mae'r pwyllgor rheoli'n dechrau sefydlu cyfeiriad strategol clir ar gyfer arferion dyddiol a thymor hir y lleoliad er mwyn hyrwyddo a chynnal gwelliannau. Ar y cyd â'r darpar arweinydd, maent yn rheoli'r cynllunio, yr addysgu a'r dysgu yn briodol ar hyn o bryd. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod gan ymarferwyr ddisgwyliadau gwell o'r rhan fwyaf o blant.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i ysgogi gwelliannau i'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys datblygu arferion asesu i dargedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant a gwella'r ddarpariaeth barhaus y tu mewn i'r adeilad. Mae hi hefyd yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd i wella medrau plant a defnyddio proffil y Cyfnod Sylfaen yn hyfedr.

Mae'r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer plant yn gwella. Mae'n sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn a bod aelodau'n gweithio fel tîm sydd wedi'i gymell. Fodd bynnag, nid yw arferion goruchwylio a gwerthuso rheolaidd ar waith yn llawn ar hyn o bryd. Mae'r pwyllgor rheoli'n cyfarfod yn rheolaidd ac

mae'n derbyn gwybodaeth am arferion y lleoliad o ddydd i ddydd yn rheolaidd gan yr arweinwyr. Mae'n dechrau herio'r lleoliad yn fwy cadarn i wella arferion dyddiol a datblygu ymhellach y meysydd y mae angen eu gwella.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae arweinwyr yn gwybod yn eithaf da beth yw cryfderau'r lleoliad a sawl un o'r meysydd y mae angen eu gwella. Yn ddiweddar, maent wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau plant a'r ddarpariaeth ddyddiol. Erbyn hyn, mae'r cydweithio a'r trafodaethau effeithiol ymhlith staff a gwybodaeth sy'n cael ei chasglu'n rheolaidd yn cyfrannu at yr arferion addas hyn. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth am y lleoliad i sicrhau gwelliannau i'w ddarpariaeth, er enghraifft mireinio'r systemau cynllunio. Mae'r broses hunanarfarnu yn ystyried safbwyntiau ymarferwyr, rheini a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn ofalus. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad bob amser yn cynnwys digon o fanylion ynghylch sut a pham mae angen gwella rhai meysydd ymhellach.

Gan mai dim ond yn ddiweddar y mae arweinwyr wedi dechrau eu prosesau hunanarfarnu, nid ydynt wedi cael digon o amser i ymgorffori'r arferion yn llawn ym mywyd y lleoliad o ddydd i ddydd. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn awgrymu bod defnydd y lleoliad o arweiniad hunanarfarnu'r awdurdod lleol yn datblygu o hyd.

Mae meysydd presennol i'w datblygu yn cynnwys gwella medrau creu marciau, rhifedd a TGCh plant a sicrhau prosesau hunanarfarnu gwell. Mae'r arweinwyr wedi gosod targedau priodol yn erbyn graddfeydd amser addas ac wedi blaenoriaethu targedau yn foddhaol. Mae'r pwyllgor rheoli yn dyrannu cyllid digonol i fodloni'r targedau. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r targedau yn y cynllun gwella yn deillio'n uniongyrchol o hunanarfarniad y lleoliad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau strategol effeithiol. Mae'r lleoliad yn gweithio'n llwyddiannus â'r partneriaid hyn i geisio gwella'r ddarpariaeth a safonau a lles y plant. Mae hyn yn cynnwys cyswllt cadarnhaol gyda'r ysgol drws nesaf i'r lleoliad, y mae'r rhan fwyaf o blant yn trosglwyddo iddi ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Mae hyn yn cefnogi trefniadau pontio plant yn dda. Mae trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau yn effeithiol ac yn fuddiol i'r plant wrth iddynt ymgynefino yn yr ysgol.

Mae ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad. Cânt eu hannog hefyd i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau rheolaidd.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu'r plant yn briodol. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau codi arian llwyddiannus, sy'n cynnwys agor siop wib mewn tref gyfagos bob blwyddyn i werthu dillad a bric-a-brac i godi arian ar gyfer y lleoliad. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, sy'n meithrin gofal a phryder am bobl eraill ymhlith y plant.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol ag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae hyn yn atgyfnerthu'r perthnasoedd cadarnhaol sy'n bodoli ac mae'r sefydliadau hyn yn mynd ati i gefnogi dogfennau hyfforddiant a rheoli yn effeithiol. Mae'r lleoliad wedi elwa ar y cymorth a gynigir gan y sefydliadau hyn yn ystod cyfnod o newid ac aflonyddwch sylweddol yn ei strwythur arwain.

Mae ymarferwyr yn gweithio ac yn cysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill, sydd hefyd yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cynorthwyo'r lleoliad â hyfforddiant mewn cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, datblygiadau'r Cyfnod Sylfaen a hyfforddiant amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae arweinwyr yn dechrau canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad. Mae'r pwyllgor rheoli yn mynd i'r afael â meysydd y lleoliad i ddatblygu'n ddeallus, yn enwedig rôl yr arweinydd. Maent yn dyrannu adnoddau'n effeithiol i dargedu'r meysydd datblygu pwysig ar hyn o bryd. Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys i fodloni anghenion y plant.

Mae arferion arwain presennol yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn briodol. Mae hyn wedi arwain at sefydlu cymuned ddysgu addas. Mae cydweithio cymwys rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill yn fan cychwyn cadarnhaol i gefnogi pob agwedd ar waith y lleoliad.

Mae'r systemau rheoli perfformiad yn ddigonol ac maent yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu ac arferion addysgu. Mae'r lleoliad yn rheoli ei adnoddau dan do yn effeithlon i gefnogi dysgu; fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r adnoddau helaeth yn yr awyr agored yn ddigon da.

Mae'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r gyllideb yn briodol ac mae bellach yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn amserlenni a chyfrifoldebau penodol â diben gwell. Mae hyn yn dechrau creu arferion arwain gwell, gyda ffocws yn benodol ar welliannau rheolaidd a chyson. Mae'r pwyllgor rheoli yn cyflawni hyn trwy drafodaethau pwrpasol a chynlluniau gwella wedi'u cyllido'n dda.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian, o ganlyniad i'r cynnydd priodol a wna plant o'u mannau cychwyn, y ddarpariaeth addas a'r arferion arwain sy'n datblygu.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 12 | 10<br>83% | 2<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 79% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 12 | 11<br>92% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 84% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 12 | 11<br>92% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 12 | 10<br>83% | 2<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 10 | 7<br>70% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 11 | 10<br>91% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 11 | 10<br>91% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 11 | 7<br>64% | 4<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 12 | 8<br>67% | 4<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 11 | 8<br>73% | 3<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 12 | 4<br>33% | 8<br>67% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 31% | 5% | 1% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 12 | 10<br>83% | 2<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 9 | 7<br>78% | 2<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 65% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 12 | 8<br>67% | 4<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 11 | 5<br>45% | 6<br>55% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 63% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 12 | 10<br>83% | 2<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

# Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |